COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 4ydd o DACHWEDD 2019 YN NEUADD CARWE AM 7.00 O'R GLOCH

Presennol: Margaret Rees (yn y gadair),Ian Evans,Tracey James,Tyssul Evans,Linda Williams,Heddwyn Jones,Aled Williams,Geoff Hewitt,Alan Lewis,Meic Bowen,Geraint Rosser a'r Clerc,Glyndwr Prideaux

Ymddiheuriadau: Caroline Williams

2294 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd ac yn arbennig Mr & Mrs Tim Fisher (o Garwe) a'r Cyfieithydd,Mr Tudur Jones.

2295 Cofnodion
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod misol diwethaf ar 07/10/2019 fel rhai cywir.

2296 Materion yn codi.
Tud 1. Cofnod Rhif 2275 - Clwb Cymdeithasol Carwe. – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.
Tud 1. Cofnod Rhif 2275 - Llwybr i Gwm Lewis - Mae'r gwaith angenrheidiol wedi ei gorffen.
T

2297 Safle Sedd Newydd yng Ngharwe

Cafwyd adroddiad gan y Clerc o fwriad y Cyngor i ail-leoli sedd ochr draw i Gapel Bethel Carwe. Darllenwyd dau lythyr o wrthwynebiad oddiwrth Mr a Mrs Tim Fisher sydd yn byw yn Spring Cottage,Carwe. Wedi trafodaeth lwyr a chlir penderfynwyd ar bleidlais mwyafrif i osod y sedd yn y flwyddyn ariannol nesaf ac ein bod fel Cyngor yn monitro'r sefyllfa yn ofalus.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

Cynghorwyr Heddwyn Jones,Geoff Hewitt a Meic Bowen yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2298 Nasareth Pontiets - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

Heddwyn,Geoff a Meic yn ail ymuno a'r cyfarfod.

2299 Pwyllgor Lles Llangyndeyrn – Yswiriant y Parc – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £336.02.

2300 Cyngor Sir Gar - Apêl y Cadeirydd 2019/2020 - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £100.

2301 Llanelli Centre for the Deaf – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2302 Bethel Llangyndeyrn – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2303 Ebeneser Crwbin – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2304 Eisteddfod Llandyfaelog – Llythyr yn diolch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

2305 JCP Cyfreithwyr - Les Newydd Clwb Rygbi Pontiets - Nodwyd y Llythyr.

2306 Cyngor Sir Gar - Apêl Teganau ac Anrhegion Nadolig - Nodwyd y Llythyr.

2307 Emily Green - Diolch am gyfraniad tuag at daith 'Girl Guides' - Nodwyd y Llythyr gyda diolch.

Ceisiadau Cynllunio

2308 a) Cais Rhif W/39696 – Mr & Mrs Islwyn Gibbon – Hengoed,Pedair Heol - Estyniad – Dim Gwrthwynebiad.

Swyddfa Bost Carwe

2309 Derbyniwyd llythyr oddiwrth Cyngor Gwledig Llanelli yn enwebi'r Cynghorwyr T.Jim Jones a Carol A Rees fel eu cynrychiolwyr mewn cyfarfod i drafod sefyllfa Swyddfa Bost Carwe. Gan fod problemau tebyg ym Mhont-henri a Bancffosfelen penderfynwyd gofyn am gynrychiolwr o Gyngor Cymuned Pontyberem hefyd i fod yn bresennol yn y cyfarfod.

Gwaharddiad y Cyhoedd

2310 Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod o achos ein bod yn trafod materion cyfrinachol

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r Mis

2311 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Hydref 2019.Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

Adroddiad Ariannol Misol

2312 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-

a) Cyflog y Clerc - £446.63 (Mis Hydref)
b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Hydref)
c) Cydnabyddiaeth y Syrfëwr - £110.00 (Mis Hydref)
ch) HMRC (Treth)- £89.60 (Mis Hydref)
d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Hydref)
dd) BT – Ffon y Swyddfa - £50.64 (Mis Hydref)
e) Paula Clarke – Glanhau Toiledau'r Meinciau (Mis Hydref)- £182.00
f) Marcus Dininno - Torri Gwair yng Ngharwe - £50.00
ff) British Legion – Torch Pabi - £17.00
g) Scalps i'w gosod ar y Llwybr Cyhoeddus heibio Fferm Caeclovers,Pontiets – Y pris i'w cadarnhau

Cynghorydd Geoff Hewitt (Cyn-gadeirydd) yn y gadair

Cynghorwyr Margaret Rees,LindaWilliams,Ian Evans,Tyssul Evans ac Aled Williams yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2313 Eisteddfod yr Urdd - Sir Gaerfyrddin 2021 - Penderfynwyd cyfrannu £1000.00 tuag at Eisteddfod Yr Urdd - Sir Gaerfyrddin 2021, sef ein cyfraniad am y flwyddyn ariannol 2019/2020.

Margaret,Linda,Ian,Tyssul ac Aled yn ail ymuno a'r cyfarfod.

Cynghorydd Margaret Rees yn y gadair

Coalfields Regeneration – Neuadd a Pharc Carwe

2314 Cafwyd adroddiad gan y Clerc ynglŷn â'r uchod. Nodwyd y cynhelir Cyfarfod yn Neuadd Carwe ar 11/11/19 am 10.30 o'r gloch.

Pwyllgor Cyllid

2315 Cynhelir Pwyllgor Cyllid am 5.30 ar 02/12/19 yn Swyddfa'r Cyngor i drafod Adolygu Parciau Gwynfryn a Phontiets ynghyd a'r Gyllideb am 2020/2021.

Cyfarfod nesaf:- 2ail o Rhagfyr 2019 yn Swyddfa'r Cyngor,Neuadd Pontiets am 7.00 o'r gloch.

(Cyfarfod Cynllunio am 6.45 o'r gloch)

Llofnodwyd…… CADEIRYDD

Dyddiad……